Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddTai@senedd.cymru

24 Mehefin 2022

Annwyl Mr Griffiths,

**Ymchwiliad i asedau cymunedol**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymchwiliad uchod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw, *Trosglwyddir Asedau Cymunedol* (2019)[1], sy'n egluro y gall trosglwyddo asedau olygu diogelu ased neu wasanaeth sydd mewn perygl o gael ei golli i'r gymuned oherwydd anallu awdurdod lleol i'w ariannu. Mae'r canllaw yn nodi y gall llawer o gyfleoedd godi o drosglwyddo asedau, yn ogystal â risgiau. Mae'n pwysleisio bod rhaid i'r broses "fod o fantais i bawb a bod â gweledigaeth y mae pawb yn ei rhannu i gyrraedd nod."

I Gomisiynydd y Gymraeg, mae diogelu asedau a gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn hollbwysig. Nodwn fod y canllaw yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y Gymraeg yn ffynnu. Mae'n cynnwys nifer o gyfeiriadau eraill at y Gymraeg, er enghraifft wrth drafod y broses diwydrwydd dyladwy. Ymhlith elfennau allweddol y broses honno, mae angen i'r awdurdodau trosglwyddo a/neu'r sefydliadau cymunedol sy'n cynllunio derbyn ased ystyried:

[1] canllaw-trosglwyddir-asedau-cymunedol.pdf (llyw.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

- effaith trosglwyddo asedau cymunedol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
- sut na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- gallu'r sefydliad sy'n derbyn ased i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg
- sut fyddai hynny'n cael ei fonitro ar ôl y trosglwyddo
- ydy'r safonau a osodir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol i ddarparu'r gwasanaeth

Nodir hefyd, wrth ystyried a ddylid caniatáu i ymgeisydd gyflwyno achos busnes llawn ar gyfer trosglwyddo ased, y dylai'r meini prawf gynnwys y gallu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi dogfennau eraill i gyd-fynd â'r canllaw, er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â'r broses trosglwyddo asedau. Maent yn cynnwys canllaw diwydrwydd dyladwy, enghraifft o'r broses a ffurflenni a thempledi sy'n cynnwys cyfeiriadau at y Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd yn cefnogi'r sylw a roddir i'r Gymraeg yn y dogfennau hyn, gan fod rhaid ystyried yr iaith o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw broses trosglwyddo asedau er mwyn sicrhau chwarae teg i siaradwyr Cymraeg a chefnogi hyfywedd y Gymraeg yn gymunedol. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion strategaeth *Cymraeg 2050* a'r elfen 'Cymuned a'r economi' yn y strategaeth. Mae'n sôn am bwysigrwydd sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg a chreu cyd-destunau lle mae'n naturiol defnyddio'r Gymraeg, a chymryd camau i normaleiddio'r iaith a chynyddu ei statws.

Ar y llaw arall, testun pryder i'r Comisiynydd yw canfyddiadau adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig, *Ein Tir: Cymunedau a Defnyddio Tir* (2022)[2]. Er mai defnyddio tir yw ffocws yr adroddiad hwn, tra bod ymchwiliad y Pwyllgor yn canolbwyntio

[2] IWA_-Ein-Tir_-Cymunedau-a-Defnyddio-Tir.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

ar asedau adeiledig, mae'n trafod y broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn gyffredinol ac yn gwneud pwyntiau pwysig am y Gymraeg. Cyfeiria'r adroddiad at wendidau yn y broses, gan nodi ei bod yn aneglur, yn anghyson ac yn tanseilio grwpiau cymunedol. Beirniadir awdurdodau lleol am gyfathrebu gwael a diffyg gwybodaeth ynghyd â phrinder swyddogion penodol ym maes Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Daw'r adroddiad i'r casgliad “mai ychydig allu sydd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol i gefnogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol”. Mae hyn yn peri gofid i'r Comisiynydd oherwydd yr angen am arbenigedd ac adnoddau digonol gan awdurdodau lleol i lywio'r broses drosglwyddo yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn sicrhau budd y gymuned a siaradwyr Cymraeg.

Trafoda'r adroddiad y pryderon am ail gartrefi a ffermydd cyfan yn cael eu prynu er mwyn plannu coed, gan effeithio'n andwyol ar gynaliadwyedd cymunedau. Tynnir sylw at y cysylltiad agos rhwng cymunedau gwledig a'r sector amaethyddol a'r Gymraeg. Mae'r materion hyn yn rhai mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw atynt hefyd. Mae'r adroddiad yn gorffen trwy ddisgrifio “angen amlwg am fesurau grymuso cymunedol yng Nghymru, wedi'u teilwra yn ôl amgylchiadau unigryw Cymru, a dysgu o brofiad gwledydd eraill y DG yn hytrach na dim ond eu dyblygu.”

Mae'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a fu'n destun ymgynghoriad gan y Llywodraeth yn gynharach eleni yn cynnig ffyrdd i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi. Mae'n sôn am bwysigrwydd cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru, a chymunedau yn cydweithio i ddiogelu gwasanaethau lleol. Mae'n rhoi enghreifftiau o fentrau cymdeithasol cymunedol sy'n darparu gwasanaethau, yn cynnig swyddi da ac yn cefnogi'r economi leol, gyda'r Gymraeg yn ganolog i'w gwaith. Nid yw canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn hysbys eto. Fodd bynnag, os bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i bwriadau yn yr ymgynghoriad bydd rhaid sicrhau fod y gefnogaeth a ddarperir yn ddigonol i wireddu amcanion y Llywodraeth yn y maes hwn.

Mae cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned yn un o ymrwymiadau'r Llywodraeth yn ei *Rhaglen Lywodraethu* (2021). Cytunwn â'r nod o rymuso cymunedau, â'r Gymraeg yn rhan greiddiol o hynny. Er mwyn i hyn lwyddo, rhaid darparu'r adnoddau, yr wybodaeth a'r

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cyngor sydd eu hangen ar bob grŵp cymunedol a phob sefydliad sy'n dymuno cymryd rhan mewn prosesau megis Trosglwyddo Asedau Cymunedol, a'u cefnogi i gyfuno'r Gymraeg yn eu gwaith. Rydym yn cydnabod fod canllawiau'r broses drosglwyddo asedau yn cyfeirio at yr angen i ystyried effaith trosglwyddo asedau cymunedol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Fel rhan o'ch ymchwiliad felly gofynnwn ichi ystyried y graddau y mae'r cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cyfrannu'n ymarferol at wireddu amcanion Strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn sicrhau nad yw trosglwyddo asedau mewn unrhyw ffordd yn tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymchwiliad i'r maes hwn. Diolch eto am y cyfle i gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir,

Dyfan Sion
**Ar ran Comisiynydd y Gymraeg**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales